



Cymun Bendigaid ar Gân  
a Gorymdaith y Palmwydd

**Sul y Blodau**

2 Ebrill 2023 am 9.15am




**Cadeirlan  
Deiniol Sant  
ym Mangor**

Saint Deiniol's  
Cathedral  
in Bangor



# Croeso i Gadeirlan Deiniol Sant ym Mangor.



Rydych chi'n sefyll rwan  
lle safodd Deiniol bron i  
fileniwm a hanner yn ôl.

Yma, yn y flwyddyn  
525, bu iddo gynnwll o'i  
gwmpas gymuned lawn  
ffydd, gobaith a chariad,  
gan godi o'i chwmpas  
ffens gyll—y **bangor**  
gwreiddiol—iddi'n gysgod  
ac yn noddfa.

Ein gweddi yw y cewch  
chwithau, hefyd, eich  
cofleidio yma gan yr un  
ffydd, gobaith a chariad  
a gyhoeddir gennym  
heddiw ac sy'n ein  
cyfareddu o hyd.

## Yn Cymun hwn...

Yn y Cymun hwn byddwn yn cwrdd â  
Christ mewn bara a gwin, ei Gorff a'i  
Waed ef gyda ni.

**1** Wrth inni ymgynnull, byddwn  
yn paratoi ein hunain i gwrdd â  
Christ trwy gyffesu ein pechodau  
— y ffyrdd yr ydym wedi galaru Duw  
yn ein bywydau — ac yn derbyn  
gollyngdod, sef sicrwydd o faddeuant  
Duw.

**2** Yna rydyn ni'n gwrandao ar  
ddarlenniadau o'r Beibl, gan  
ganfod yno arweiniad, her,  
cysur a newydd da gan Dduw.  
Ymatebwn trwy gyhoeddi ein ffydd  
yn y Drindod Sanctaidd a chynnig i  
Dduw ein gweddi dros bawb mewn  
angen.

**3** Yn galon i'n haddoliad heddiw,  
byddwn yn cymryd bara a gwin,  
byddwn yn gofyn am fendith  
gweddnewidiol Duw arnynt, yn torri'r  
bara, ac — fel aelodau o Gorff toredig,  
trwsiedig Crist — byddwn yn Cymuno.

**4** Daw ein haddoliad i ben wrth  
inni dderbyn bendith Duw, yn  
gynhaliath inni wrth ymadael.

Waeth pa mor bell yn ôl y  
gwnaethoch hynny ddiwethaf, mae  
croeso i chi Gymuno yma heddiw. Os  
hoffech chi Gymuno am y tro cyntaf,  
neu gael eich Bedyddio, siaradwch ag  
aelod o dîm yr Gadeirlan.

Ceir ffydd, gobaith a chariad yma i  
bawb.

## Addoli gyda ni heddiw

Mae'r llyfryn hwn yn cynnwys popeth a ddywedir ac a genir yn ystod ein haddoliad heddiw. Fe'ch gwahoddir i fynd â'r llyfryn adref gyda chi, i fyfyrion yn eich amser eich hun ar y geiriau sanctaidd sydd ynddo. Fodd bynnag, nid darllen neu arsylwi ydi addoli – ond gweithgaredd, a ninnau'n cymryd rhan, ochr yn ochr â'r rhai sy'n cynnull gyda ni ac, y tu hwnt i hynny, ochr yn ochr â llu'r nef i gyd. Dyrchefwch, felly, eich llygaid; sylwch ar liw, golau, sain, symudiad a harddwch; codwch eich llais; cyfranogwch yn yr hyn a fydd yn eich gweddnewid, o roi iddo'r cyfle.

Yn ystod ein haddoliad, rydyn ni'n dweud ac yn canu gyda'n gilydd y testun **mewn teip trwm**. Darperir cyfieithiadau o ieithoedd tramor. Mae croeso ichi wneud arwydd o'r Groes pan fydd y geiriau wedi'u marcio ag ✕. Cynigir cyfarwyddiadau eraill (rhuddellau) **mewn teip gwyrdd**; os ydych chi'n ei chael hi'n fwy cyfforddus, eisteddwch yn hytrach na sefyll neu benlinio.

## Hgyrchedd

Mae dolen glyw ar waith – gosodwch gymhorthion clyw i'r lleoliad T.

Mae copiâu print bras o'r llyfryn hwn ar gael gan y stiwardiaid.

Os oes angen waffer heb glwten arnoch (yn cydymffurfio â'r gofyniad canonaidd am 20 rhan o glwten fesul miliwn), rhowch wybod i stiward.

Mae tai bach ym mhen dwyreiniol y Gadeirlan, trwy'r drws i'r chwith o'r sgrin y Cwâr.

Os bydd angen i ni adael y Gadeirlan mewn argyfwng, arhoswch ar eich heistedd a dilynwch gyfarwyddiadau'r stiwardiaid.

## Plant a theuluoedd ifanc

Ceir gweithgareddau a chrefftau yn ystod y Cymun Bendigaid ar Gân bob dydd Sul yng Nghapel Mair, ar gyfer unrhyw blant hyd at 11 oed. Mae'r crefftau a'r gweithgareddau yn amrywiol, gydag o leiaf un yn ymwneud â thema'r Cymun ei hun. Caiff y gofod hwn yn cael ei staffio gan oedolion cyfrifol, a bydd plant dros 5 oed yn gallu mynd a dod. Bydd plant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb eu rhieni neu eu gwarcheidwaid bob amser. Yn y lle cyntaf, dylai plant sy'n 4 oed ac iau fod yng nghwmni rhiant neu warcheidwad oni bai bod trefniant ymlaen llaw gyda'r rhai ar ddyletswydd wedi'i wneud.

## O'r Ddarllenfa a Buchedd Bangor

Pob wythnos, anfonir ebost **O'r Ddarllenfa** at danysgrifwyr gyda hysbysiadau ynghyd â delweddau wythnosol o fywyd y Gadeirlan a'r Ardal Weinidogaeth. Os nad ydych chi eisoes yn danysgrifiwr, dilynwch y cod QR, neu ewch i **cadeirlan.eglwysyngnghymru.org.uk/Darllenfa/**

**Buchedd Bangor** yw ein cylchgrawn rheolaidd, sy'n cynnig cymysgedd o ddefnydd ysbrydol a gwybodaeth ymarferol am ein bywyd ar y cyd. Mynnwch gopi heddiw, neu ddilynwch y cod QR i ddarllen arlein.


### Buchedd Bangor



### O'r Ddarllenfa From the Lectern



# Trefn y gwasanaeth



Offrymddarn ar yr organ

Ymdeithgan ar “Liff up your heads” gan Händel, Alexandre Guilmant (1837-1911)

Wedi'r hysbysiadau, codwn ar ein traed ar ganiad y gloch



## Cynnull

Emyn



**B**anerau'r Brenin sydd ar daen,  
mae'r Groes â'i llewyrch ar y blaen;  
ar hon y talodd Prynwr byd  
ein pridwerth ni trwy aberth drud.

Ar bren y Groes bu'r Ceidwad wiw,  
trywanwyd yno'i ystlys friw:  
a dŵr a gwaed a ddaeth yn lli,  
o'i glwyfau ef, i'n golchi ni.



O bren bendigaid, decaf pren,  
lle plygodd ef ei ddywfol ben!  
Mor deg yr wyt, a'th gangau i gyd  
yn goch gan waed lachawdwr byd!

Ar freichiau garw'r croesbren mawr  
fe bwysodd feiau'r byd i'r llawr;  
fe brynodd inni fythol hedd,  
ysbeiliodd uffern ddofn a'r bedd. Hosanna!

**Geiriau**

Venantius Fortunatus (c.530-c.600)

**Cyfieithiad**

Ap Ceredigion (David Lewis; 1870-1948)

**Cerddoriaeth | "Gonfalon Royal"**

Percy Carter Buck (1871-1947)

Parhawn ar ein traed tan diwedd y Weddi Gasgl

## Cyfarchiad

✠ Yn enw'r Tad, a'r Mab, a'r Ysbryd Glân.

**Amen.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

"Ceraist gyfiawnder, O Dduw, a chasáu drygioni."

## Cyffes

Gan gynnull i ddatlu'r Cymun Bendigaid er gogoniant i Dduw,  
ymbaratwn gan gyffesu ein pechodau,

Rhag ein camweddau a phob drygioni,  
rhag oferedd a chenfigen,  
rhag casineb a malais.

**Dad nefol, gwared ni.**

Rhag gafael chwant a chynildeb celwydd,  
rhag calon galed,  
rhag bopeth a'n estrona.

**Dad nefol, gwared ni.**

Yn ein amharodrwydd i gydnabod ein gwerth,  
yn nhreiddio ein calonau â llafn dy gariad.

**Dad nefol, gwared ni.**

Yn nyddiau ein tristwch,  
yn oriau ein poen,  
yn awr ein marw.

**Dad nefol, gwared ni.**

Trwy dy Ddiodeffaint a'th farw ar y Groes,  
trwy dy gladdedigaeth a'th orffwys yn y bedd,  
trwy dy Atgyfodiad gogoneddus.

**Dad nefol, gwared ni.**

Trwy lwybrau dy ddoethineb,  
trwy wir edifeirwch,  
trwy Gorff Crist.

**Dad nefol, gwared ni.**

Dad nefol,

**yr ydym wedi pechu ar feddwl, gair a gweithred,  
a heb wneud yr hyn a ddylem.**

**Mae'n wir ddrwg gennym,  
ac yr ydym o ddifrif yn edifarhau.**

**Er mwyn dy Fab Iesu Grist a fu farw drosom,  
maddeua inni'r cwbl a aeth heibio**

**ac arwain ni yn ei ffordd ef  
i gerdded fel plant y goleuni.**

**Amen.**

Yr hollalluog Dduw a drugarhao wrthyich,  
✠ maddau ichwi a'ch rhyddhau o bechod,  
a'ch cadw yn y bywyd tragwyddol.

**Amen.**

Parhawn ar ein traed

## Kyrie eleison

Kyrie eleison. Christe eleison. Kyrie eleison.

### Cyfieithiad

*Arglwydd trugarha. Crist trugarha. Arglwydd trugarha.*

### Cerddoriaeth

**Missa brevis Sancti Joannis de Deo**

**“Kleine Orgelmesse | Offeren fach yr Organ”,**

Joseph Haydn (1732-1809)

Parhawn ar ein traed

## Gweddi Gasgl

Gweddiwn.

**H**ollgyfoethog a thragwyddol Dduw, a anfoneist dy Fab, o’th dyner gariad at bawb, i gymryd ein cnawd, ac i ddioddef angau ar y Groes, fel y gallai pob un ddilyn esiampl ei ostyngieiddrwydd mawr: dyro inni ddilyn yng nghamre ei ddioddefgarwch, a bod hefyd yn gyfrannog o’i atgyfodiad; trwy yr un Iesu Grist ein Gwarddwr.

**Amen.**

Eisteddwn

# Gair

## Darlleniad

Darlleniad o Lythyr yr Apostol Paul at y Philipiaid.

**G**aredigion: Amlygwch yn eich plith eich hunain yr agwedd meddwl honno sydd, yn wir, yn eiddo i chwi yng Nghrist Iesu. Er ei fod ef ar ffurf Duw, ni chyfrifodd fod cydraddoldeb â Duw yn beth i'w gipio, ond fe'i gwacaodd ei hun, gan gymryd ffurf caethwas a dyfod ar wedd ddynol. O'i gael ar ddull y ddynoliaeth, fe'i darostyngodd ei hun, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Am hynny tra-dyrchafodd Duw ef, a rhoi iddo'r enw sydd goruwch pob enw, fel wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear, ac y cyffesai pob tafod fod Iesu Grist yn Sanct Duw, er gogoniant Duw Dad.

Clywch air bywyd i'n byd.

**Diolch a fo i Dduw.**

**Philipiaid 2:5-11**



## Salmyddiaeth



☩ Ceraist gyfiawnder, ac mewn gwg a llid edrychaist ar y drwg.

**☩ Ceraist gyfiawnder, ac mewn gwg a llid edrychaist ar y drwg.**

Yr wyt yn decach na phawb; tywalltwyd gras ar dy wefusau am i Dduw dy fendithio am byth.

Gwisg dy gleddyf ar dy glun, O ryfelwr; â mawredd a gogoniant addurna dy forddwyd.

**☩ Ceraist gyfiawnder, ac mewn gwg a llid edrychaist ar y drwg.**

Marchoga o blaid gwirionedd, ac o achos cyfiawnder, a bydded i'th ddeheulaw ddysgu iti bethau ofnadwy.

Y mae dy saethau'n llym yng nghalon gelynyon y brenin; syrth pobloedd odanat.

**☩ Ceraist gyfiawnder, ac mewn gwg a llid edrychaist ar y drwg.**

Y mae dy orsedd fel gorsedd Duw, yn dragwyddol, a'th deyrnwialen yn wialen cyfiawnder.

Ceraist gyfiawnder a chasáu drygioni; am hynny bu i Dduw, dy Dduw di, dy eneinio ag olew llawenydd uwchlaw dy gyfoedion.

**☩ Ceraist gyfiawnder, ac mewn gwg a llid edrychaist ar y drwg.**

**Salm 45:2-7**

**Cerddoriaeth y salm-dôn**

Tôn VIII, ail derfyniad

**Cerddoriaeth yr ymateb**

addasiad o Melchior Teschner (1584-1635)

## Cerdd

### Y gwaed a ddiferodd yn waedd!

Annes Glyn, o Ladin gwreiddiol Hildegard von Bingen (c.1098-1179)  
ac efelychiad Saesneg Barbara Newman

Lleian hynod amryddawn oedd Hildegard von Bingen. O'r Abaty Benedictaidd lle roedd yn *Magistra* (Uchel Sam) roedd yn weithgar fel awdur, cyfansoddwr, athronydd, diwinydd cyfriniol, academydd meddygol, a sylfaenydd abatai eraill. Mae Barbara Newman yn Athro Lladin ym Mhrifysgol Iâl, ac yn awdurdod ar ddiwylliant crefyddol canoloesol ac ysbrydolrwydd menywod. O'u gwaith hwy bu i'r bardd a'r awdur o Ynys Môn, Annes Glyn, lunio'r cyfieithiad hwn.

Y gwaed a ddiferodd yn waedd!  
Crynodd y Cread  
dan ei gyffyrddiad,  
clywodd y nefoedd ei drallod.  
O! waed bywiol y Creawdwr,  
y gynghanedd rudd,  
lleddfa'n doluriau.

Codwn ar ein traed, gan droi i wynebu Llyfr yr Efengylau yng Nghorff yr Eglwys

### Efengyl



☩ Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol. **℞ Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.** ☩ Wrth enw Iesu y plygai pob glin yn y nef ac ar y ddaear a than y ddaear. **℞ Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.** ☩ Bendigedig yw'r un sy'n dod yn frenin yn enw'r Sanctiadd Un! **℞ Mawl i ti O Grist, Brenin gogoniant bythol.**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.  
**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Gwrandewch yr Efengyl Sanctaidd yn ôl ✠ Sant Luc.  
**Gogoniant i ti, O Grist.**

**B**ryd hynny: Aeth Iesu rhagddo ar ei ffordd i fyny i Gaersalem, gan gerdded ar y blaen. Pan gyrhaeddodd yn agos i Bethffage a Bethania, ger y mynydd a elwir Olewydd, anfonodd ddau o'i ddisgyblion gan ddweud, "Ewch i'r pentref gyferbyn. Wrth ichwi ddod i mewn iddo cewch yno ebol wedi ei rwymo, un nad oes neb wedi bod ar ei gefn erioed. Gollyngwch ef a dewch ag ef yma. Ac os bydd rhywun yn gofyn i chwi, 'Pam yr ydych yn ei ollwng?', dywedwch fel hyn: 'Y mae ar y Meistr ei angen.'" Aeth y rhai a anfonwyd, a chael yr ebol, fel yr oedd ef wedi dweud wrthynt. Pan oeddent yn gollwng yr ebol, meddai ei berchenogion wrthynt, "Pam yr ydych yn gollwng yr ebol?" Atebasant hwythau, "Y mae ar y Meistr ei angen," a daethant ag ef at Iesu. Yna taflasant eu mentyll ar yr ebol, a gosod Iesu ar ei gefn. Wrth iddo fynd yn ei flaen, yr oedd pobl yn taenu eu mentyll ar y ffordd. Pan oedd yn nesáu at y ffordd sy'n disgyn o Fynydd yr Olewydd, dechreuodd holl dyrfa ei ddisgyblion yn eu llawenydd foli Duw â llais uchel am yr holl wyrthiau yr oeddent wedi eu gweld, gan ddweud: "Bendigedig yw'r un sy'n dod yn frenin yn enw'r Sanctaidd Un; yn y nef, tangnefedd, a gogoniant yn y goruchaf." Ac meddai rhai o'r Phariseaid wrtho o'r dyrfa, "Athro, cerydda dy ddisgyblion." Atebodd yntau, "Rwy'n dweud wrthyich, os bydd y rhain yn tewi, bydd y cerrig yn gweiddi."

Dyma Efengyl ein Gwaredwr.

## **Moliant i ti, O Grist.**

**Luc 19:28-40**

Eisteddwn ar gychwyn y bregeth

### **Pregeth yn y gyfres "Duw newydd digyfnawid"**

"Rwy'n fwyfwy argyhoeddedig mai'r ffordd orau o ddiwinydda yw barddoni," meddai'r diwinydd a'r hanesydd, Diana Butler Bass, yn ddiweddar. Mae hi'n ein cyfeirio at yr her o sôn am y Duw anweledig mewn ffyrdd sy'n anrhydeddu dirgeledd Duw, a thuag at y gwirionedd mai mewn barddoniaeth y mae beirdd, emynwyr, pregethwyr a holl bobl Dduw yn aml wedi dod agosaf at ganfod mewn geiriau'r harddwch, y gwirionedd a'r cariad y mae'r enaid yn ei gaffael yn Nuw. Wrth i ni gamu tuag'r Wythnos Fawr a llawenydd dwfn y Pasg, bydd cerdd i gyd-fynd â'n darlleniadau Beiblaidd pob Sul, a bydd ein pregethau'n ein dwyn i ddirgeledd y farddoniaeth, er mwyn ein dwyn hefyd i goflaid dirgeledd Duw. Canys, fel y dywed yr offeiriad a'r llenor, Mark Oakley, "Y mae Duw yn y byd hwn fel y mae barddoniaeth yn y gerdd."

**Yr Is-Ddeon**



## Credo

Ar y cyd, gadewch inni gadarnhau ein ffydd.

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn Nuw Dad,  
a greodd bopeth sydd.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Fab Iesu Grist,  
a brynodd ddynolryw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn ei Ysbryd Glân,  
sy'n rhoi bywyd i bobl Dduw.**

**Yr wyf yn credu ac yn ymddiried yn un Duw,  
✠ Dad, Mab ac Ysbryd Glân.  
Amen.**

## Ymbiliau

Gyda'n holl galon a'n holl feddwl gweddiwn ar Dduw.

Eisteddwn neu benliniwn

Defnyddiwn yr ymatebion

Y O Dduw, yn dy drugaredd,  
R **Gwrando ein gweddi.**

Y Gorffwys tragwyddol dyro iddynt, O Dduw.  
R **A llewyrched goleuni gwastadol arnynt.**  
Y ✠ Gorffwysed hwy mewn tangnefedd.  
R **A chyfodi mewn gogoniant.**

Y Dad trugarog,  
R **Derbyn y gweddiâu hyn  
er mwyn dy Fab, ein Gwaredwr Iesu Grist.  
Amen.**

Codwn ar ein traed, a gwneir Casgliad yn ystod yr emyn

# Cymun

Emyn



**P**wy sy'n dwyn y Brenin adref?  
Pwy sy'n caru gweld ei wedd?  
Pwy sy'n parchu deddfau'r goron  
ac yn dilyn llwybrau hedd?  
Hwn fydd mawr dros y llawr,  
dewch i'w hebrwng ef yn awr.  
Hwn fydd mawr dros y llawr,  
dewch i'w hebrwng ef yn awr.

Pwy sy'n taenu cangau'r palmwydd  
ar y ffordd o dan ei draed?  
Ble mae mintai y cerddorion  
i glodfori gwerth ei waed?  
Mawr fydd ef yn y nef,  
dewch yn awr i'w ddwyn i dref.  
Mawr fydd ef yn y nef,  
dewch yn awr i'w ddwyn i dref.

**Doed y rhai sy'n llesg eu meddwl,  
doed y rhai sy'n galon drist;  
fe â llawer gofid heibio  
wrth was'naethu Iesu Grist:  
os efe gaiff ei le,  
daw y ddaear fel y ne'.  
Os efe gaiff ei le,  
daw y ddaear fel y ne'.**

**Geiriau**

Elfed (Howell Elvet Lewis; 1860-1953)

**Cerddoriaeth | "Blaen-y-Coed"**

Joseph Parry (1841-1903)

Parhawn ar ein traed tan y rhannwn y Tangnefedd

**Offrwm**

Deuwn i'r fangre hon â'r bara sy'n gynhaliaeth.

**Fe ddaw inni'n fara'r bywyd.**

Deuwn i'r fangre hon â'r gwin sy'n mwyneiddio.

**Fe ddaw inni'n waed einioes y byd.**

**Gweddi Ewcharistaidd**

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Dyrchefwch eich calonnau.

**Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.**

Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.

**Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.**

Iawn yn wir, ein dyletswydd a'n llawenydd bob amser ac ym mhob lle, yw diolch i ti, Dad Sanctaidd, hollalluog a bythfywiol Dduw, trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

A'i darostyngodd ei hun ar wedd y ddynoliaeth, gan fod yn ufudd hyd angau, ie, angau ar groes. Fe'i dyrchafwyd oddi ar y ddaear fel y tynnai bawb ato ef ei hun.

Felly, gyda llu'r angyllion a holl gwmpeini'r nef, cyhoeddwn ogoniant dy enw ac ymuno â hwy yn eu hemyn diderfyn o fawl:

Sanctus, Sanctus, Sanctus, Dominus Deus Sabaoth. Pleni sunt caeli et terra gloria tua. Hosanna in excelsis.

✠ Benedictus qui venit in nomine Domini. Hosanna in excelsis.

### Cyfieithiad

*Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,  
Duw gallu a nerth, nef a daear sy'n llawn  
o'th ogoniant. Hosanna yn y goruchaf. / ✠  
Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod yn enw'r  
Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf.*

### Cerddoriaeth

**Missa brevis Sancti Joannis de Deo**

**"Kleine Orgelmesse | Offeren fach yr Organ",**

Joseph Haydn (1732-1809)

### Parhawn ar ein traed

Pob moliant a diolch i ti, y gwir a'r bywiol Dduw, Crëwr pob peth, Rhoddwr bywyd. Lluniaist ni ar dy ddelw dy hun, ond yr ydym ni wedi difwyno'r ddelw honno a syrthio'n brin o'th ogoniant. Rhoddwn ddiolch i ti am anfon dy Fab i rannu ein bywyd ni; fe'i hildiaist i farwolaeth fel y câi'r byd ei achub, a'i atgyfodi oddi wrth y meirw fel y bo i ni fyw ynddo ef, ac yntau ynom ninnau.

Sancteiddia â'th Ysbryd y bara hwn a'r gwin hwn, dy roddion inni, fel y bônt i ni yn gorff a gwaed ein Hiachawdwr, Iesu Grist.

Y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara ac, wedi rhoi diolch, fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud, Cymerwch, bwyteu; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch: gwnewch hyn er cof amdanaf. ✠

Yr un modd ar ôl swper cymerodd y cwpan, ac, wedi rhoi diolch, fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud, Yfwch o hwn bawb, oherwydd hwn yw fy ngwaed o'r cyfamod newydd a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau: gwnewch hyn bob tro yr yfwch ef er cof amdanaf. ✠

Gadewch inni gyhoeddi dirgeledd y ffydd:

**Bu farw Crist.**

**Atgyfododd Crist.**

**Daw Crist mewn gogoniant.**

Fel y gorchmynnodd ef inni, O Dad, yr ydym yn cofio Iesu Grist, dy Fab. Gan gyhoeddi ei farwolaeth fuddugoliaethus, a chan ymlawenhau yn ei atgyfodiad, a disgwyl iddo ddod mewn gogoniant, deugn â'r bara hwn a'r cwpan hwn i ti. Derbyn ein haberth o ddiolch a moliant.

Adfer ac adfywia dy holl bobl, adnewyddu ni a phawb y gweddiwn trostynt â'th ras a'th ✠ fendith nefol a derbyn ni yn y diwedd gyda'th holl saint i'r llawenydd diderfyn hwnnw a addawyd inni gan dy Fab, ein Harglwydd Iesu Grist.

Trwyddo ef, gydag ef, ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân, eiddot ti, Dad hollalluog, yw pob anrhydedd a gogoniant, yn oes oesoedd.

✠ **Amen.**

Parhawn ar ein traed

### Gweddi'r Arglwydd

Fel y dysgodd ein Hiachawdwr ni, gweddiwn yn hyderus:

**E**in Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd, sancteiddier dy enw, deled dy deyrnas, gwneled dy ewyllys; megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd. Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol a maddau i ni ein dyledion, fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr. Ac nac arwain ni i brofedigaeth; eithr gwared ni rhag drwg. Canys eiddot ti yw'r deyrnas, a'r gallu, a'r gogoniant, yn oes oesoedd. **Amen.**

### Tangnefedd

Dy gorff drylliedig, llwch ein llwch a chnawd ein cnawd, dan glwyfau dy gariad tangnefeddus, ddaw'n gyflawn inni mewn tangnefedd.

Tangnefedd y Bythol Dduw a fo gyda chwi bob amser.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Rhannwn arwydd o Dangnefedd.

Rhannwn arwydd o Dangnefedd; yna penliniwn neu eisteddwn



## Torri

Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: miserere nobis. Agnus Dei, qui tollis peccata mundi: dona nobis pacem.

### Cyfieithiad

*Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: trugarha wrthym. Oen Duw, sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd: dyro inni dangnefedd.*

### Cerddoriaeth

**Missa brevis Sancti Joannis de Deo**

**"Kleine Orgelmesse | Offeren fach yr Organ",**

Joseph Haydn (1732-1809)

## Cymuno

✠ Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.  
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

**Waredwr, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,  
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.**

Deuwn i Gymuno, gan ddilyn cyfarwyddyd y Stiwardiaid, o'r Afrlladen Sagrafennol ac, os y dymunwn, o'r Gwerthfawr Waed

## Motét

Hosanna i Fab Dafydd. Bendigedig yw'r hwn sydd yn dyfod yn enw'r Arglwydd. Hosanna yn y goruchaf. Amen.

### Geiriau

Mathew | Matthew 21:9

### Cerddoriaeth

Tomás Luis de Victoria (1548-1611)

Codwn ar ein traed ar ganiad y gloch a chyhwan ein Croesau Palmwydd

# Gorymdaith y Palmwydd

## Bendithio'r Palmwydd

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

Daw'n cymorth yn Enw Duw.

**Creawdwr nef a daear.**

Dduw hollgyfoethog, edrychwn tua'r bryniau, agorwn byrth ein calonnau, a dyrchwn ein bywydau i groesawu Crist ein Meseia, a ddaw i'w ddinas ei hun i gwblhau ei arswydus, achubol waith.

✠ Bendithia'r canghennau palmwydd hyn, wedi eu llunio'n Groes, a bydded hwy inni'n faner ei Ddiodefaint, yn arwydd o ingoedd Sanct Duw yn ein cnawd, ac yn addewid o'r gogoniant sydd y tu hwnt i fryn Calfaria, hyd yn oed ein byw a'n marw a'n cyfodi gyda'r un, lesu Grist ein Gwardwr.

**Amen.**

Awn rhagddom mewn tangnefedd.

**Yn Enw Crist. Amen.**

Gan ddilyn y Gweinidogion, gorymdeithiwn tua'r Stryd Fawr, gan ail-ganu'r emyn yn ôl y galw



**Y**mlaen! ymlaen marchoga'n awr,  
clyw groch Hosanna'r dyrfa fawr;  
O! addfwyn Iesu, dos ymlaen  
dros gangau gwydd a gwisgoedd taen.

Ymlaen! ymlaen mewn breiniol fri  
a llariaidd rwysg, i'th angau di;  
O! Grist, gorchfyga yn dy rym  
bechodau'r byd ac angau llym.

Ymlaen! ymlaen, O! Frenin mawr!  
Mae'r nefoedd oll yn plygu'n awr,  
gan syllu a rhyfeddu'n fud  
gerbron anfeidrol aberth drud.

Ymlaen! ymlaen mewn rhwysgedd clau,  
mae'r ymdrech olaf yn nesau;  
y Tad ar berlog orsedd sy  
yn disgwyl ei eneniog fry.

Ymlaen! ymlaen mewn breiniol fri  
a llariaidd rwysg, i'th angau di;  
O! plyg dy ben i farwol boen,  
dring orsedd Duw, ddihalog Oen.

**Geiriau**

Henry Hart Milman (1791-1868)

**Cyfiethiad**

Glanmor (John Williams; 1811-1891)

**Cerddoriaeth** | "Winchester New"

o "Musicalisches Hand-Buch" (1690)

# Ymadael

Garedigion yng Nghrist,

fel y bu i Grist weddio dros Gaersalem, felly hefyd gweddiwn dros Fangor, ein dinas ninnau;

fel y bu i Grist ddod drwy byrth ei ddinas ei hun i gwblhau ei arswydus, achubol waith, felly dechreuwn ninnau ein coffâd o'i Ddiodefaint angerddol;

fel y bu i Grist, o'i godi ar ei Groes, ddwyn ynghyd bopeth ynddo'i hun, felly yr adnabyddwn ninnau gwblhau ein prunedigaeth trwyddo ef, ac gydag ef, ac ynddo ef y dyddiau mawrion hyn.

Gras a thangnefedd a fo gyda chwi.

**A'th gadw di yng nghariad Crist.**

**B**ydded i'r Crist croeshoeliedig eich tynnu ato ef ei hun, sy'n sylfaen ddiogel ffydd, yn gynhaliwr cadarn gobaith ac yn sicrwydd maddeuant pechodau; a bendith Duw hollalluog, y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân, a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.

**Amen.**

Awn ymaith mewn tangnefedd.

**Yn Enw Crist. Amen.**

Dychwel y Gweinidogion i'r Gadeirlan

# Cerddi ein cyfres bregethu


Wrth i ni gamu tuag'r Wythnos Fawr a llawenydd dwfn y Pasg, mae cerddi i gyd-fynd â'n darlleniadau Beiblaidd pob Sul.

Beth am fynd â'r llyfryn hwn adref gyda chi, ac ailymweld â'r gerdd yn ystod yr wythnos. Darllenwch hi yn dawel, neu ar lafar, efallai fwy nag unwaith.

# Cwestiynau ar ôl darllen cerdd

- 1 Beth a'ch trawodd gyntaf pan oeddech chi'n darllen y gerdd? Beth oedd yn neidio allan atoch chi?
- 2 Beth wnaethoch chi weld, blasu, clywed, ogleuo a chyffwrdd?
- 3 Pa ran o'r gerdd oedd yn ennyn eich diddordeb neu a oedd yn ddyrys i chi?
- 4 Pa emosiynau ydych chi'n eu gweld yn y gerdd?
- 5 Sut mae'r gerdd yn gwneud i chi deimlo? Beth yn y gerdd a ddaeth â chysur i chi? Beth yn y gerdd a'ch heriodd?
- 6 A oedd y gerdd yn eich cysylltu â rhywbeth o bwys? Beth yw'r neges yn y gerdd i chi?

# Oddi wrth yr Is-Ddeon



## Ysgrifenna Canon Siôn Rhys Evans:

### Yr Wythnos Fawr

Safwn heddiw ar gychwyn yr Wythnos Fawr. Mae ein defodau yn ddifrifol ac o sylwedd, ac yn cynnig cyfoeth o gyfleoedd i ni ymdrochi yn nrama Dioddefaint ac Atgyfodiad Crist, wedi'u gwneud a'u cyflawni er ein hiachawdwriaeth. Gadewch imi eich annog i rannu newyddion am ein defodau gyda'ch ffrindiau a'ch cymdogion, ac i fod yn ffyddlon yn eich presenoldeb yn ystod yr Wythnos Fawr.

Hoffwn dynnu'ch sylw i rhai uchafbwyntiau.

### Johannes-Passion

Heno mae'n cerddorion yn perfformio *Johannes-Passion* J. S. Bach (*Dioddefaint Sant Ioan*), i gyfeiliant grymoedd offerynnol Ensemble 525, ac wedi'u hategu gan leisiau Corws Prifysgol Bangor.

### Malcolm Guite

Ein pregethwr yn y Cymun Bendigaidd ar Gân a Bendithiad y Sagrafen Fendigaid ar y Llun, y Mawrth a'r Mercher Glân am 6.00pm yw'r Parchg Ddr Malcolm Guite. Mae Malcolm Guite wedi disgrifio'i hun fel "bardd, offeiriad, roc a rholer, ym mha bynnag drefn y mynnwch." Bu'n ddiweddar yn Gaplan Coleg Girton, Caergrawnt, a dilynodd Ronald Blythe fel un o golofnwyr wythnosol

y *Church Times*. Am ei gerddi, a glywn yn ystod yr Wythnos Fawr, ebe Rowan Williams, cyn Archesgob Cymru, fod iddynt "gynildeb a grym pob soned dda, gan dro ar ôl tro gynnyg i'r darllenydd roddion dwfn er mwyn gweddïo a myfyrio." Mae ei lyfr diweddaraf, *Lifting the Veil: Imagination and the Kingdom of God*, yn amddiffyniad egniol o'r dychymyg creadigol fel "cynneddf sy'n dwyn y gwirionedd."

### Saith Air y Groes

I ganol tawelwch Dydd Gwener y Groglith, byddwn yn offrymu'r perfformiad cyntaf yn y byd o *Saith Air y Groes* gan y cyfansoddwr, Alex Mills – gosodiad corawl o eiriau olaf Crist o'r Groes, wedi'i wreiddio yn iaith a diwylliant Gogledd Orllewin Cymru, ac wedi'i gomisyngu ar gyfer yr Wythnos Fawr gan y Gadeirlan. Bydd y gair mawr, tyngedfennol hwnnw, "Gorffenwyd," yn atseinio.

Dyma'r rhaglen lawn:

---

**2** Ebrill | Sul y Blodau  
**April | Palm Sunday**

**6.00pm**

**Johannes-Passion**

*Dioddefaint Sant Ioan, J. S. Bach*

Côr Cadeirlan Deiniol Sant

Corws Prifysgol Bangor

Ensemble 525

Tom Castle, Efengylydd

Jack Redman, Christus

Joe Cooper, arweinydd

**Tocynnau** | £15 | £10 gostyngiadau

| £5 myfyrwyr | £5 plant

*Saint John Passion, J. S. Bach*

Saint Deiniol's Cathedral Choir

Bangor University Chorus

Ensemble 525

Tom Castle, Evangelist

Jack Redman, Christus

Joe Cooper, conductor

**Tickets** | £15 | £10 concessions |

£5 students | £5 children

---

**3** Ebrill | Y Llun Glân  
**April | Holy Monday**

**11.30am**

**Cymun Bendigaid y Crism a**

**Chysegriad Bwrdd y Allor**

•

**Chrim Holy Eucharist and**

**Dedication of the new Altar-Table**

**6.00pm**

**Cymun Bendigaid ar Gân a**

**Bendithiad y Sagrafen Fendigaid**

•

**Choral Holy Eucharist and**

**Benediction of the Blessed**

**Sacrament**

**Malcolm Guite yn pregethu |**  
**preaching**

Offeren Tri Llais | Mass for Three  
Voices, Byrd

Salmau Cân, Gibbons

O salutaris hostia, Elgar

---

**4** Ebrill | Y Mawrth Glân  
**April | Holy Tuesday**

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

**6.00pm**

**Cymun Bendigaid ar Gân a**

**Bendithiad y Sagrafen Fendigaid**

•

**Choral Holy Eucharist and**

**Benediction of the Blessed**

**Sacrament**

**Malcolm Guite yn pregethu |**  
**preaching**

Offeren Pedwar Llais | Mass for  
Four Voices, Byrd

Salmau Cân, Gibbons

Nolo mortem peccatoris, Morley

---

**5** Ebrill | Y Mercher Glân  
April | Holy Wednesday

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid | Holy Eucharist**

**6.00pm**

**Cymun Bendigaid ar Gân a  
Bendithiad y Sagrafen Fendigaid**

**Choral Holy Eucharist and  
Benediction of the Blessed  
Sacrament**

Malcolm Guite yn pregethu |  
preaching  
Offeren Pum Llais | Mass for Five  
Voices, Byrd  
Salmau Cân, Gibbons  
Salvator Mundi I, Tallis

---

**6** Ebrill | Dydd Iau Cablyd  
April | Maundy Thursday

**12.30pm**

**Cymun Bendigaid (yr Iau  
Glân) | Holy Eucharist (of Holy  
Thursday)**

**6.00pm**

**Cymun Bendigaid ar Gân y  
Swper Olaf â Golchi'r Traed •  
Choral Holy Eucharist of the Last  
Supper with the Washing of Feet**

Yr Is-Ddeon yn pregethu | The  
Sub-Dean preaching  
Offeren yn E leddf | Mass in E flat,  
"Cantus Missae", Rheinberger  
Tantum Ergo, Duruflé

**yna Gwylfa Gethsemane  
followed by the Watch of  
Gethsemane**

**10.00pm**

**Cwmplyn y Dioddefaint |  
Compline of the Passion**

---

**7** Ebrill | Dydd Gwener y  
Groglith  
April | Good Friday

**2.00pm**

**Litwrgi'r Dioddefaint | The Liturgy  
of the Passion**

Dioddefaint Sant Ioan | Saint John  
Passion, Victoria

**4.45pm**

**Sgwrsio ag Alex Mills | Alex Mills in  
Conversation**

Sgwrs cyn y perfformiad gyda  
chyfansoddwr ein comisiwn ar  
gyfer yr Wythnos Fawr, *Saith Air  
y Groes* |

A pre-performance conversation  
with the composer of our Holy  
Week commission, *Saith Air y  
Groes*

**6.00pm**

**Saith Air y Groes**

*Saith Air y Groes*, Alex Mills  
Côr Cadeirlan Deiniol Sant  
Ensemble 525  
Joe Cooper, arweinydd

Tocynnau | £5

*Saith Air y Groes • Seven Last  
Words from the Cross*, Alex Mills  
Saint Deiniol's Cathedral Choir  
Ensemble 525

Joe Cooper, conductor

Tickets | £5



---

**8 Ebrill | Noswyl y Pasg**  
**8 April | Easter Eve**

**6.00pm**

**Gwynos a Chymun Bendigaid  
Cyntaf y Pasg ar Gân | Choral  
Vigil and First Holy Eucharist of  
Easter**

Missa Brevis, Dove  
Seek him that maketh the seven  
stars, Dove  
Incantation pour un jour saint,  
Langlais

**Prynu tocynnau ar gyfer  
y Johannes-Passion**  
Buy tickets for the Johannes-Passion



**Prynu tocynnau ar gyfer  
Saith Air y Groes**  
Buy tickets for Saith Air y Groes



---

**9 Ebrill | Sul y Pasg**  
**9 April | Easter Day**

**8.15am**

**Holy Eucharist**

**9.15am**

**Cymun Bendigaid ar Gân**

Yr Esgob Cynorthwyol yn  
pregethu  
Missa Brevis in C, Gounod  
Hwn ydyw'r dydd, Evans  
Acclamations, Langlais

**11.00am**

**Choral Holy Eucharist**

The Assistant Bishop preaching  
Spatzenmesse, Mozart  
Hallelujah!, Handel  
Alleluia, Dubois


**3.30pm**

**Gosber ar Gân | Choral  
Evensong**

Ymatebion | Responses, Ayleward  
Second Evening Service in E flat,  
Wood  
Blessed be the God and Father,  
Wesley  
Variations on an old Easter  
melody, West



# Hysbys arall



## Cinio Dewch a Rhannu

Mae'n diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd yn hael i'n Cinio Dewch a Rhannu nesaf y Sul diwethaf. Mae'n Cinio Dewch i Rannu yn gyfle hapus am sgwrs, difyrwch, croeso a charedigrwydd.

## Dodrefn cysegredig newydd

We're delighted to have our new Nave furniture being used for the first time in the Cathedral this morning.

Mae'r cymhelliant ar gyfer dodrefn newydd Corff yr Eglwys yn ddeublyg.

Yn gyntaf, gallwn lawenhau bod mwy o ddefnydd yn cael ei wneud o adeilad y Gadeirlan – nid yn unig ar y Sul, ond yn ystod yr wythnos. O'n defodau litwrgaidd dyddiol i ddatganiadau cerdd, ac o gyngherddau i grwpiau plant bach ac ymweliadau ysgol, mae ein Cadeirlan yn fwrwlm o weithgareddau bob dydd o'r wythnos. Roedd ein celfi presennol yng Nghorff yr Eglwys yn fwiadol drwm a sefydlog, ac wedi eu cynllunio i raddau helaeth ar gyfer arddull addoli Mudiad Cymun Plwyfol canol y ganrif ddiwethaf yn unig. Golygai hynny bod addasu cynllun Corff yr Eglwys ar gyfer cyngherddau, datganiadau a defnyddiau eraill – ac yna ail-osod ar gyfer addoliad – yn feichus, ac weithiau'n niweidiol ac yn beryglus. Mae angen dodrefn Corff yr Eglwys arnom a all fod yn hyblyg.

Yn ail, nid oedd addasiadau litwrgaidd y degawdau diwethaf wedi dod law yn llaw ag addasiadau cydlynol i gynllun dodrefnu Corff yr Eglwys. Tra bod Cwŕ a Sentwar Scott wedi'i ddylunio'n hyfryd ac yn gyfannol ar gyfer y Gosber, roedd dodrefn yng Nghorff yr Eglwys wedi'u rhoi at ei gilydd mewn ffordd braidd yn chwit chwaf dros y blynyddoedd. Dylai adeilad o'r pwysigrwydd hwn, ac addoliad Duw o'i fewn, gael ei gynnal a'i gefnogi gan ddodrefn hardd, wedi eu dylunio'n arbennig ar gyfer y gofod hwn ac i'n defnydd ni gyda gofal a manwl gywirdeb. Mae cynllun Luke Hughes yn cynnig celfi y gellir eu defnyddio'n hyblyg, ond sydd hefyd yn rhan o gynllun pwrpasol ar gyfer ein Cadeirlan ac wedi'u cynhyrchu i'r safonau uchaf.

Caiff Bwrdd yr Allor ei gysegru gan yr Esgob yng Nghymun y Crist fore Llun 3 Ebrill am 11.30am. Mae croeso i bawb yn y gwasanaeth hwn.

Gweddiwch â diolchgarwch dros y seiri a'r dylunwyr fu'n gweithio ar ein dodrefn. Gweddiwch hefyd am y defnydd a wneir o'r celfi newydd, i addoli Duw ac i gefnogi cenhadaeth a thystiolaethu ein Cadeirlan.

## Drwy Ddagrau Duw Through Jesus' Tears

Ein cyhoeddiad ar gyfer Wythnos Fawr 2023 yw *Drwy Ddagrau Duw*, 20 soned Malcolm Guite ar gyfer yr Wythnos Fawr, gyda chyfieithiad newydd sbon i'r Gymraeg gan yr unigryw Siôn Aled. A limited number of copies are available for £5.00.

## Fashion Show

Mae ein sioe ffasiwn er budd Banc Bwyd y Gadeirlan yn symud i mewn i'r Gadeirlan ei hun y tro hwn. Bydd yn cael ei gynnal yma am 3.00pm ddydd Sadwrn 15 Ebrill. Trefnir y sioe ffasiwn gyda chymorth "Shine by Ali", sy'n dylunio dillad, gemwaith, bagiau a sgarffiau fforddiadwy a hwyliog. Mae tocynnau mynediad yn £5.00 oddi wrth Lesley, ymlaen llaw neu ar y drws.

## Darlith Goffa

Cynhelir darlith Goffa'r Dr Enid Pierce Roberts ar Hanes a Diwylliant Cymru eleni wedi'r Gosber ar ddydd lau 20 Ebrill. Ein darlithydd yw'r Athro D. Densil Morgan, yr academydd o fri ar grefydd Protestannaidd Cymru'r canrifoedd diwethaf, a phregethwr o bwys gyda'r Bedyddwyr. Ei bwnc fydd yr offeiriad, y bardd a'r cyfieithydd Edmwnd Prys, a hynny ym phedwarcanmlwyddiant ei farw.

## Cymuno

Cyngor wrth Gymuno: Yr arferiad wrth dderbyn yr Afrlladen Sagrafennol (y bara) yw estyn o'n blaen gledrau agored ein dwylaw (ar ôl gwneud arwydd y Groes drosom ein hunain yn union cyn cyraedd yr offeiriad yn gweinidogaethu y Cymun os dymunwn). Bydd yr offeiriad sy'n gweinidogaethu'r Cymun yn dweud "Corff Crist," yr ydym yn ymateb ag "Amen," cyn gosod yr Afrlladen

Sagrafennol yn ein ceg cyn symud oddi wrth yr offeiriad. Yn yr un modd, wrth dderbyn y Gwerthfawr Waed (y gwin), dywedir "Gwaed Crist," a ninnau'n ymateb "Amen." Efallai y byddwn yn estyn llaw i helpu'r gweinidog sy'n dal y garegl (cwpan) i dywys y garegl tuag atom, neu ddal ei waelod i'w wyro ychydig, neu adael i'r gweinidog yn unig ymgymryd â'r holl symudiad (wedi gwneud arwydd y Groes drosom ein hunain eto yn union cyn cyrraedd y gweinidog os dymunwn gwneud hynny). Ein harfer yw peidio caniatáu "gwlychu" (trochi'r Afrlladen Sagrafennol yn y garegl), fel sy'n digwydd mewn rhai mannau, fel y cynghora Esgobion yr Eglwys yng Nghymru yn erbyn gwneud hynny.

---

# Ein gweddi

**Yn glâf** Joy Levine, offeiriad; Trefor Roberts; John Watkin Jones; Caitriona Carroll; Giuseppina de Rosa; David Silcok; Giuseppina de Giovanni

**A fu farw'n ddiweddar** Shirley Egerton; Helen Martinez; Justin Adams; James Bowman

**Gŵyl goffa** Bernadete Dagam (5); Geraint Edwards, offerriad (7)

## Diogelu

Mae diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl yn hanfodol, ac rydym wedi ymrwmo i feithrin amgylchedd lle mae pawb yn gallu addoli a chymryd rhan ym mywyd Cadeirlan Deiniol Sant yn ddiogel. Os oes gennych unrhyw bryderon, codwch nhw ar unwaith gydag aelod o dim y Gadeirlan.

## Cynaliadwyedd a chaniatâd

Rydym yn defnyddio papur sydd wedi ei ailgylchu 100% a'i gynhyrchu â charbon deuocsid isel.

Caiff cynifer o'n gwasanaethau'n eu ffrydio ar Facebook, ac mae'r recordiad ar gael wedi hynny ar dudalen Facebook y Gadeirlan. Efallai y bydd ffotograffydd swyddogol ar ddyletsydd. Mae eich presenoldeb yn gyfystyr â'ch caniatâd i gael eich cynnwys mewn unrhyw ffilmio, tynnu lluniau, recordio sain neu ddarlledu. Os nad ydych am i ffotograff ohonoch chi neu blentyn yn eich gofal gael ei ddefnyddio gan y Gadeirlan, siaradwch ag aelod o dim y Gadeirlan.

## Cydnabyddiaethau

Atgynhyrchir deunydd yn y drefn hon o wasanaeth o dan CLL 280874. Mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys rhannau o'r **Drefn ar gyfer y Cymun Bendigaid 2004** hawlfraint © Gwasg yr Eglwys yng Nghymru 2004 Mae'r lliθοedd a'r salmyddiaeth Gymraeg yn seiliedig ar **The New Revised Standard Version of the Bible** ac **Y Beibl Cymraeg Newydd: Argraffiad Diwygiedig**. Daw cytgan y salmyddiaeth Gymraeg o Nicander, **Y Psallwyr** (1850) a'r salmyddiaeth Saesneg o **The Saint Helena Breviary** (2019).

Mae delwedd y clawr yn ystod tymor of Gesimáu a'r Grawys yn ffotograffau gan y ffotograffydd lleol ac un o gyfeillion y Gadeirlan, Dave Custance.

## Cadeirlan ac Eglwys Archesgobol

### Deiniol Sant ym Mangor

### The Cathedral & Metropolitan Church of Saint Deiniol in Bangor

Esgob ac Archesgob Cymru

**Y Parchedigaf Andrew T. G. John**

Bishop & Archbishop of Wales

**The Most Revd Andrew T. G. John**

Is-Ddeon | Sub-Dean

**Canon Siôn B. E. Rhys Evans**

sionrhys Evans@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Dros Fwywyd Cynulleidfaoel

Canon for Congregational Life

**Canon Tracy Jones**

tracyjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cyfarwyddwr Cerdd | Director of Music

**Joe Cooper**

joecooper@eglwysyngnghymru.org.uk

Organydd | Organist

**Martin Brown**

martinbrown@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinidog Teulu | Family Minister

**Naomi Wood**

naomiwood@eglwysyngnghymru.org.uk

Clerc y Cabidw | Chapter Clerk

**Robert Jones**

robertjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Cwstos | Custos

**Simon Taylor**

simontaylor@eglwysyngnghymru.org.uk

Trysorydd | Treasurer

**Kelly Edwards**

kellyedwards@eglwysyngnghymru.org.uk

Gweinyddwr Liturgi | Liturgy Administrator

**Sam Jones**

samjones@eglwysyngnghymru.org.uk

Rheolwr Prosiect Cadwraeth a Datblygu

Conservation & Development Project Manager

**Simon Ogdon**

simonogdon@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Secundus

**Canon David Thomas Morris**

davidmorris@eglwysyngnghymru.org.uk

Canon Emeritws | Canon Emeritus

**Canon Angela Williams**

Aelodau o Goleg Offeiriadol y Gadeirlan

Members of the Cathedral's College of Priests

**Y Parchg Ddr | The Revd Dr John Prysor- Jones,**

**y Tra Parchg Athro | the Very Revd Prof.**

**Gordon McPhate, y Parchg | the Revd Peter**

**Kaye**

Darllenwydd | Reader

**Elma Taylor**

Pensaer y Gadeirlan | Cathedral Architect

**Simon Malam**

Rhif elusen | Charity number 1158340

## Cefnogaeth

Caiff y fangre sanctaidd hon llawn ffydd, gobaieth a chariad, a phopeth sy'n digwydd yma, ei chynnal gan eich haelioni chi.

**I** l roi rhodd ar-lein ar eich ffôn heddiw, sganiwch y cod QR isod.

**2** Defnyddiwch ein peiriant rhoi digyswllt yng nghefn Corff yr Eglwys i dapio cerdyn neu ffôn.

Trwy roi rhodd, byddwch yn ein helpu i barhau â'n gwaith hanfodol.

